Profion Darllen Cenedlaethol

# DARLLEN
## CA6

Enw cyntaf ____________________

Cyfenw ____________________

Ysgol YSGOL CYMERAU

Dosbarth ____________________

Dyddiad geni ◯◯ ◯◯ ◯◯◯◯

Dyddiad y prawf ◯◯ 0 5 2 0 1 8

Cyfanswm y sgôr ◯ (uchafswm 38)

165136

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSGOL CYMERAU

## Cyfarwyddiadau

**Yn y llyfryn hwn, mae nifer o gwestiynau i chi eu hateb mewn ffyrdd gwahanol.**

**Dyma rai cwestiynau ymarfer a fydd yn dangos i chi sut i ateb y gwahanol gwestiynau sydd yn y prawf. Bydd y cyfarwyddiadau'n dweud wrthoch chi beth i'w wneud.**

## Cwestiynau ymarfer

Edrychwch ar y brawddegau isod. Mae gair ar goll ym mhob un.
Ticiwch y bocs wrth ochr y gair **gorau** i lenwi'r bwlch.
**Does dim rhaid** i chi ysgrifennu'r gair yn y bwlch.

**a** Mae Carlo y ci yn ________ .

cyfarth ☐ cytuno ☐ croeso ☐ cau ☐ cae ☐

**b** Pwy sy'n ennill ________ y mabolgampau?

clorian ☐ cwpan ☐ cwstard ☐ cinio ☐ coes ☐

YSGOL CYMERAU

**STOPIWCH**

**Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 4.**

**Dylech chi weithio drwy dudalennau 4–5 gan stopio pan fydd rhywun yn dweud wrthoch chi am wneud hynny.**

**Mae gennych chi 10 munud i wneud rhan nesaf y prawf.**

## Cwblhau brawddegau

Edrychwch ar y brawddegau isod. Mae gair ar goll ym mhob un.
Ticiwch y bocs wrth ochr y gair **gorau** i lenwi'r bwlch.
**Does dim rhaid** i chi ysgrifennu'r gair yn y bwlch.

1. "Mae'r hufen iâ yn ______ !" meddai Siôn. — 1 1m

   toddi ☐ boddi ☐ hedfan ☐ cerdded ☐ haul ☐

2. Does gan Sali ddim ______ i brynu ffrwyth. — 2 1m

   tarian ☐ arian ☐ asgwrn ☐ actio ☐ adar ☐

3. "O, dw i wedi bwyta gormod o ______ ," meddai Meg. — 3 1m

   ginio ☐ ddŵr ☐ fwrdd ☐ blât ☐ gwpan ☐

4. ______ Ifan am ei esgid bêl-droed. — 4 1m

   Gwelodd ☐ Chwiliodd ☐ Chwysodd ☐ Chwarddodd ☐ Cysgodd ☐

5. Mae'r teulu'n mynd ar wyliau mewn ______ . — 5 1m

   carafán ☐ traeth ☐ carlam ☐ calon ☐ bwced ☐

YSGOL CYMERAU

**6** ______ Ben grys rygbi i'r gêm.

Gwyliodd ☐ Gwaeddodd ☐ Gwisgodd ☐ Grŵp ☐ Canodd ☐

6 ◯ 1m

**7** Mae'n bwrw glaw, felly mae angen ______.

ymbarél ☐ ysgwydd ☐ bag ☐ eli haul ☐ ysgol ☐

7 ◯ 1m

**8** Mae Ffion yn adeiladu castell ______.

tywydd ☐ hen ☐ tywod ☐ mynydd ☐ dŵr ☐

8 ◯ 1m

**STOPIWCH** **Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 6.**

YSGOL CYMERAU

CYFANSWM

8m

## Cwestiynau ymarfer

**Yn y llyfryn hwn, mae nifer o gwestiynau i chi eu hateb mewn ffyrdd gwahanol.**

**Dyma rai cwestiynau ymarfer a fydd yn dangos i chi sut i ateb y gwahanol gwestiynau sydd yn y prawf. Bydd y cyfarwyddiadau'n dweud wrthoch chi beth i'w wneud.**

**I ddechrau, darllenwch y darn darllen sydd yn y bocs isod.**

> Yn yr ysgol roedd y plant yn cael gwers Celf gan Mrs Gruffydd. Roedd Elis wrth ei fodd yn arlunio. Roedd e eisiau bod yn arlunydd ryw ddiwrnod.
>
> "Heddiw," meddai Mrs Gruffydd, "gawn ni gystadleuaeth i weld pwy fydd y gorau am dynnu llun creadur o Awstralia. Aderyn, pysgodyn, trychfil, neu anifail arall."
>
> Dangosodd Mrs Gruffydd bentwr o luniau i'r plant. Roedd Mared yn hoffi'r parot coch a melyn lliwgar. Siarc mawr, ffyrnig yr olwg oedd ffefryn Caron. Dewisodd Steffan gangarŵ gyda chynffon hir a choesau cryf. Ond, doedd Elis ddim yn gallu penderfynu.

YSGOL CYMERAU

**a** Ble mae'r plant?

Ticiwch **1**.

Awgrym: Gwiriwch sawl ateb sydd ei angen.

Yn y siop. ☐ Yn yr ysgol. ☐

Yn Awstralia. ☐ Yn y parc. ☐

**b** **Dewiswch a chopïwch** enw'r athrawes sy'n dysgu'r wers.

Awgrym: Dylech chi edrych eto ar y stori i ddod o hyd i'r ateb.

______________________________

**c** Beth mae Elis yn hoffi ei wneud?

Ticiwch **1**.

siarad ☐ ysgrifennu ☐ mathemateg ☐

arlunio ☐ canu ☐ dawnsio ☐

**ch** Pa fath o bethau mae'r plant yn cael dewis tynnu llun ohonyn nhw?

Ticiwch **3**.

pysgod ☐ planhigion ☐ adar ☐

trychfilod ☐ bwyd ☐ tai ☐

**d** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Mae Elis eisiau bod yn arlunydd ryw ddiwrnod. | | |
| Mae'r plant yn tynnu llun anifeiliaid o Affrica. | | |
| Mae'r athrawes yn dangos lluniau gwahanol i'r plant. | | |

**dd** Tynnwch **3** llinell i ddangos pwy oedd eisiau tynnu llun beth. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Mared | siarc |
| Caron | methu penderfynu |
| Steffan | parot |
| Elis | cangarŵ |

Awgrym: Mae un llinell wedi'i thynnu'n barod i chi.

**STOPIWCH**

**Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 8.**

**Dylech chi weithio drwy'r llyfryn, gan stopio pan fydd rhywun yn dweud wrthoch chi am wneud hynny.**

**Yn gyntaf, darllenwch bob darn darllen sydd mewn bocs ar dudalennau 8–14.**
**Wedyn, trowch yn ôl i'r dudalen hon a dechrau ateb y cwestiynau.**

## Adeiladu tŷ coeden

**Tŷ coeden**

Mae pobl yn adeiladu tŷ coeden i'w ddefnyddio fel:

- tŷ chwarae
- swyddfa
- cuddfan i wylio adar neu anifeiliaid gwyllt
- lle i ymlacio
- cartref i fyw ynddo!



YSGOL CYMERAU

**1** Yn ôl y darn, gallwch ddefnyddio tŷ coeden fel . . .

Ticiwch **2**.

- tŷ chwarae. ☐
- trên. ☐
- swyddfa. ☐
- garej. ☐
- cwch. ☐

1

1m

**2** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.
Yn ôl y darn, mae rhai pobl yn defnyddio tŷ coeden fel . . .

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| lle i ymlacio. | | |
| bws. | | |
| cuddfan i wylio adar. | | |
| maes awyr. | | |
| tŷ gwydr. | | |

2
2m


*trosodd*

YSGOL CYMERAU

CYFANSWM
3m

**Cynllunio tŷ coeden**

Dyma dŷ coeden wedi'i labelu.




YSGOL CYMERAU

**3** Sut mae dod i lawr o'r llwyfan?

Ticiwch **3**.

| | |
|---|---|
| grisiau | ☐ |
| to | ☐ |
| polyn llithro | ☐ |
| drws | ☐ |
| llithren | ☐ |

3
1m

**Offer i adeiladu tŷ coeden**

Cyn dechrau adeiladu mae'n rhaid cael yr offer cywir. Dyma restr o'r offer:


**Tâp mesur** – mesur hyd a lled

**Pensil** – marcio'r pren

**Llif** – torri'r pren i'r mesuriadau cywir

**Rhaff** – codi pethau trwm yn uchel

**Morthwyl** – taro'r hoelion



**4** Tynnwch **4** llinell i ddangos pa ddarn o offer sy'n gwneud beth.

| | |
|---|---|
| tâp mesur | rhoi llinell ar y pren |
| pensil | taro'r hoelion i mewn i'r pren |
| rhaff | codi pethau trwm |
| morthwyl | cael yr hyd a'r lled yn gywir |

YSGOL CYMERAU

4 2m

**5** Pwrpas y llif yw . . .

Ticiwch **1**.

- mesur yr hoelion. ☐
- codi'r pren. ☐
- torri'r pren. ☐
- taro'r hoelion. ☐

5 1m

*trosodd*

CYFANSWM 4m

**Y tŷ coeden mwyaf yn y byd!**

- Mae'r tŷ coeden mwyaf yn y byd yn America. Cafodd ei adeiladu gan ddyn o'r enw Horace Burgess.
- Mae 80 ystafell ynddo a dydy e ddim wedi gorffen cael ei adeiladu eto!
- Mae hen bren yn cael ei ailgylchu i adeiladu'r tŷ.
- Ar y trydydd llawr mae cwrt pêl-fasged enfawr!



**6** Ble mae'r tŷ coeden sydd wedi cael ei adeiladu gan Horace Burgess?

YSGOL CYMERAU

Ticiwch **1**.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Alban | ☐ | Affrica | ☐ | America | ☐ |
| Yr Almaen | ☐ | Aberystwyth | ☐ | Abermaw | ☐ |

6 1m

**7** **Dewiswch** a **chopïwch 1** gair sy'n disgrifio'r cwrt pêl-fasged.

______________________

7 1m

**8** Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r ffeithiau gwahanol am y tŷ coeden mwyaf yn y byd.

| | |
|---|---|
| Horace Burgess | ystafell |
| 80 | ar y trydydd llawr |
| cwrt pêl-fasged | adeiladwr |
| hen bren | cael ei ailddefnyddio |

8

2m

*trosodd*

YSGOL CYMERAU



CYFANSWM

4m

**Byw mewn tŷ coeden**

Dyma dŷ coeden ar ynys sydd heb fod yn bell o Awstralia. Yno, mae pobl yn byw mewn tŷ coeden sydd 43 metr i fyny o'r ddaear! I gyrraedd y tŷ, mae aelodau o'r teulu yn gorfod dringo a chario plant, anifeiliaid anwes, bwyd ac offer coginio i fyny ar eu cefnau. Mae bod yn uchel yn cadw'r teulu yn ddiogel rhag llifogydd ac anifeiliaid peryglus sy'n byw ar lawr y goedwig.



**9** Yn ôl y darn, sut mae pobl yn mynd i fyny at y tŷ coeden?

Ticiwch **1**.

| | | |
|---|---|---|
| hedfan ☐ | cerdded ☐ | dringo ☐ |
| rhedeg ☐ | nofio ☐ | neidio ☐ |

9 — 1m

**10** Yn ôl y darn, pam mae'r teulu angen byw yn uchel?

Ticiwch **1**.

| | |
|---|---|
| i gadw'n iach ☐ | i fod yn ddiogel ☐ |
| i goginio ☐ | i edrych lawr ar y goedwig ☐ |

10 — 1m

**11** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae'r tŷ coeden yn uwch na 50 metr o'r ddaear. | | |
| Mae pobl yn byw yn y tŷ coeden. | | |
| Mae'r tŷ coeden yn Awstralia. | | |

11 ◯ 1m

**12** Tynnwch **3** llinell i gysylltu'r ffeithiau gwahanol am y tŷ coeden ar yr ynys.

| | |
|---|---|
| cario | i gyrraedd y tŷ |
| anifeiliaid peryglus | bwyd ac anifeiliaid anwes |
| dringo | yn byw ar lawr y goedwig |

12 ◯ 1m

YSGOL CYMERAU

**STOPIWCH** **Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 16.**

CYFANSWM ◯ 4m

**Yn gyntaf, darllenwch bob darn darllen sydd mewn bocs ar dudalennau 16–21.**
**Wedyn, trowch yn ôl i'r dudalen hon a dechrau ateb y cwestiynau.**

## Awyren Alun

Roedd hi'n ddiwrnod braf yn ystod gwyliau'r haf. Roedd Alun yn chwarae gyda phêl rygbi yn yr ardd. Yn sydyn, hedfanodd awyren uwchben. A dyna pan gafodd Alun syniad:

"Dw i'n mynd i adeiladu awyren!"



**1** Ble roedd Alun yn chwarae?

YSGOL CYMERAU

Ticiwch **1**.

Yn y parc. ☐

Yn yr ardd. ☐

Yn yr afon. ☐

Yn y cae chwarae. ☐

1
1m

**2** Yn ôl y darn, beth oedd yn hedfan uwchben Alun yn yr ardd?

Ticiwch **1**.

aderyn ☐

pêl rygbi ☐

awyren ☐


pryfyn ☐

hofrennydd ☐

2
1m

I ddechrau, aeth Alun i chwilio am ddarn hir o bren a dau hen focs o Siop Siân. Gludodd un bocs ar y pren i wneud sedd. Yna, torrodd y bocs arall mewn siâp triongl i wneud cynffon i'r awyren. Teimlai Alun yn glyfar iawn!

Gwneud adenydd oedd y broblem! Batiau criced fyddai'n gweithio. Ond, roedd angen plu ar y batiau criced i hedfan go iawn! Felly, aeth ati i chwilio am blu.



**3** Beth roedd Alun yn ei ddefnyddio i wneud adenydd?

Ticiwch **1**.

| | | |
|---|---|---|
| racedi tenis ☐ | batiau pêl fas ☐ | dau focs ☐ |
| batiau criced ☐ | triongl cardfwrdd ☐ | rhwyfau ☐ |

3 / 1m

YSGOL CYMERAU

**4** Tynnwch **3** llinell i ddangos beth mae Alun yn ei ddefnyddio i wneud yr awyren.

| | |
|---|---|
| adenydd | triongl allan o hen focs |
| sedd | plu a batiau criced |
| cynffon | bocs ar ben y pren |

4 / 1m

**5** Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.


| | |
|---|---|
| gwneud sedd yr awyren | ☐ |
| torri'r cardfwrdd i wneud cynffon | ☐ |
| cael problem gyda'r adenydd | ☐ |
| teimlo'n falch | ☐ |
| dod o hyd i ddarn o bren | 1 |

5 / 1m

CYFANSWM 5m



*trosodd*



"O ble ydw i'n mynd i gael plu?" gofynnodd Alun, mewn penbleth.

Penderfynodd redeg ar ôl yr ieir yn yr ardd drws nesaf. Ond, roedd yr ieir yn rhy gyflym!

"Dw i angen syniad arall," meddai Alun. Gwelodd hen glustog. Torrodd y glustog gyda siswrn. Roedd plu bach, bach tu mewn.

"Da i ddim!" meddai Alun. "Maen nhw'n rhy fach."

**6** Yn ôl y darn, doedd Alun ddim yn gallu dal yr ieir oherwydd . . .

| | Ticiwch **1**. |
|---|---|
| roedden nhw'n rhy drwm. | ☐ |
| roedd ofn ar Alun. | ☐ |
| roedden nhw'n rhy gyflym. | ☐ |
| doedden nhw ddim yn hapus. | ☐ |
| roedden nhw'n pigo. | ☐ |

6 1m

**7** **Dewiswch** a **chopïwch** y cwestiwn mae Alun yn ei ofyn.

________________________________________

7 1m

**8** Meddyliwch am y stori hyd yma. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Defnyddiodd Alun ddau focs i wneud sedd yr awyren. | | |
| Mae Alun eisiau plu i orffen yr adenydd. | | |
| Mae'r ieir yn rhedeg yn araf. | | |
| Mae Alun yn defnyddio plu yr ieir. | | |
| Plu bach iawn sydd yn y glustog. | | |

8

2m

*trosodd*

YSGOL CYMERAU

CYFANSWM

4m



"Dw i angen syniad arall", meddai Alun.

Wrth chwilio yn yr ystafell wely, gwelodd yr ateb perffaith. Het orau ei fam, ei het ar gyfer priodasau. Ar yr het roedd plu! Roedd Alun wrth ei fodd, ac aeth ati i ludo'r plu ar y batiau criced. Plu alarch, fflamingo ac estrys oedd ar yr het.

Ymhen dim, roedd wedi gorffen adeiladu'r awyren!

**9** Pa fath o blu oedd ar het briodas mam Alun?

YSGOL CYMERAU

Ticiwch **3**.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| eryr | ▢ | estrys | ▢ | parot | ▢ |
| alarch | ▢ | iâr | ▢ | fflamingo | ▢ |

9 ◯ 1m

**10** *. . . gwelodd yr ateb perffaith.*
Beth mae Alun wedi'i weld?

Ticiwch **1**.

| | |
|---|---|
| plu maint cywir | ▢ |
| batiau criced | ▢ |
| awyren | ▢ |
| gwely mawr | ▢ |
| glud | ▢ |
| bocs | ▢ |

10 ◯ 1m

Rhoddodd yr awyren ar y lawnt, eisteddodd yn y bocs a dechrau chwifio'r batiau criced i fyny ac i lawr yn gyflym. A'r peth nesa ddigwyddodd oedd . . . dim byd. Hen dro, doedd yr awyren ddim yn hedfan. Teimlodd Alun yn benisel.



"Beth sy'n bod?" gofynnodd Mam yn garedig.

"Dw i eisiau hedfan, Mam" meddai Alun.

"Un doniol wyt ti, Alun!" meddai Mam, heb sylweddoli bod plu ei het orau ar adenydd awyren Alun.

YSGOL CYMERAU

**11** Meddyliwch am y stori i gyd. Ticiwch **bob rhes** i ddangos pwy sy'n cael ei ddisgrifio.

| | Alun | Mam Alun |
|---|---|---|
| yn cael syniad ar ddechrau'r stori | | |
| yn siarad yn garedig | | |
| ddim yn gwybod am yr het | | |
| yn drist ar ddiwedd y stori | | |

11

2m

*trosodd*

CYFANSWM

4m

**12** Meddyliwch am y stori i gyd. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Torrodd Alun y pren mewn siâp triongl. | | |
| Roedd yr ieir yn yr ardd drws nesaf. | | |
| Defnyddiodd Alun siswrn i dorri'r glustog. | | |
| Roedd plu fflamingo yn y glustog. | | |
| Roedd het ei fam yn yr ystafell fyw. | | |

12

2m

**Diwedd y prawf. Gwiriwch eich gwaith.**

YSGOL CYMERAU

YSGOL CYMERAU

CYFANSWM

2m

**Diolchiadau**

'Awyren Alun' addaswyd o *Llyfr Mawr Wcw a'i ffrindiau*, golygwyd gan Dylan Iorwerth, (Gwasg Carreg Gwalch, 2007) ISBN: 1845271122

Mae'r testun hwn wedi ei gynnwys yn y prawf hwn at ddibenion yr arholiad yn unig yn unol ag Adran 32(3) y Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988. Nid oes cais wedi ei wneud na hawl wedi ei roi ar gyfer unrhyw hawlfraint arall.

© Hawlfraint y Goron 2018